CANOLFAN HAMDDEN A GWEITHGAREDDAU'R WAUN
AMODAU LLOGI
Perthnasol ar gyfer unrhyw logi ymlaen llaw

6. Dehongliad

(a) Ystyr "y llogwr" yw'r unigolyn neu sefydliad sy'n llogi unrhyw ran o gyfleusterau'r Ganolfan. Ni fydd neb dan 18 oed yn cael ei dderbyn fel llogwr, heblaw am ddefnydd achlysurol.
(b) Ystyr "cyfnod llogi" yw'r cyfnod ar unrhyw ddiwrnod a neilltuwyd i'r llogwr.
(c) Ystyr "cyfnodau llogi" yw'r cyfnodau ar unrhyw ddiwrnod a neilltuwyd i'r llogwr.
(d) Ystyr "Prif Swyddog" yw'r Prif Swyddog Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant.
(e) Mae'r diffiniadau yn y Rheoliadau cyffredinol i holl ddefnyddwyr y Ganolfan yn berthnasol i'r amodau hyn.

7. Taliadau

Rhaid talu holl daliadau cyn dechrau'r cyfnod llogi neu, yn achos mwy nag un cyfnod llogi, cyn y cyfnod llogi cyntaf. Gall y Prif Swyddog fynnu taliad yn llawn ar adeg llogi. Os na thalwyd yn unol â'r amodau hyn, gall y Prif Swyddog ddileu holl gyfnodau llogi pellach ar unwaith.

8. Llogwr yn Canslo

Os bydd y llogwr yn canslo neu'n peidio â manteisio ar unrhyw gyfnod llogi, bydd y taliad yn dal yn ddyledus ond, os bydd y cyfnod llogi'n cael ei ailosod, yna gall y Prif Swyddog ddewis dychwelyd hyd at 75% o'r taliad am y cyfnod hwnnw.

9. Y Prif Swyddog yn Gwrthod neu'n Diddymu Cyfnod Llogi

Trwy'r Prif Swyddog, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais neu i ddiddymu neu derfynu unrhyw gyfnod llogi am unrhyw reswm o fath yn y byd heb orfod rhoi unrhyw reswm dros wneud hynny. O ganlyniad i arfer yr hawl hon, ni fydd y Cyngor yn atebol am unrhyw dreuliau a dalwyd gan y llogwr naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o wrthodiad, diddymiad neu derfyniad o'r fath. Bydd unrhyw daliad neu ran ohono yn cael ei ad-dalu, yn amodol ar adran 7 isod

10. Cyfrifoldeb Llogwr

Bydd i'r llogwr sicrhau bod holl ddefnyddwyr y Ganolfan dan neu yn rhinwedd y llogi yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyffredinol y Ganolfan (sy'n cael eu hystyried yn rhan o'r amodau hyn). Bydd y llogwr yn atebol i'r Cyngor am dorri unrhyw un ohonynt neu'r amodau hyn, fel pe bai'r llogwr wedi eu torri.
Ni fydd unrhyw logi'n cael ei dderbyn fel llogi Clwb oni bai ei fod yn enw ysgrifennydd y clwb, neu swyddogion awdurdodedig eraill y clwb, ar ôl eu hysbysu i'r Prif Swyddog.
Rhaid i'r ysgrifennydd neu swyddog awdurdodedig wneud cais i logi'r eiddo ac adeiladau neu gyfleusterau yn ysgrifenedig i'r Prif Swyddog erbyn o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau'r cyfnod llogi.

Fe all y Prif Swyddog fynnu bod y clwb yn cael yswiriant yn erbyn y fath risgiau ag a fydd yn cael eu pennu. Bydd i'r llogwr gyflogi digon o stiwardiaid i gadw trefn yn ystod y cyfnod llogi a diarddel unrhyw un sy'n afreolus neu'n anufuddhau cyfarwyddyd y Prif Swyddog.

1. Darparu Gwybodaeth

Os bydd y Prif Swyddog yn gofyn, bydd i'r llogwr ddarparu enwau a chyfeiriad pobl sy'n manteisio ar unrhyw ran o'r cyfnod llogi ac oed unrhyw rai ohonynt sydd dan oed.

2. Torri Rheoliadau

Os bydd y Prif Swyddog yn diddymu neu'n terfynu unrhyw gyfnod llogi o ganlyniad i dorri unrhyw un o'r amodau hyn (gyda phenderfyniad y Pwyllgor yn derfynol ar hynny), bydd y llogwr yn dal yn atebol am y taliadau sy'n ddyledus hyd at yr adeg honno. Ni fydd hyn yn lleihau effaith unrhyw hawliad sydd gan y Cyngor yn erbyn y llogwr yn deillio o doriad o'r fath neu fel arall.

3. Amodau Llogi Bloc

Er mwyn llogi bloc rhaid llenwi'r **ffurflen BB1** briodol. Bydd achlysuron arbennig yn cael blaenoriaeth dros logi bloc gyda rhybudd dileu rhesymol yn cael ei roi.

4. Amser Llogi

Mae eich amser llogi'n cynnwys codi a datgymalu offer.

5. Hyfforddi Plant ac Oedolion Agored i Niwed

Sylwch fod rhaid cadw at y canlynol cyn y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn derbyn llogi unrhyw eiddo ac adeiladau sydd yn eiddo iddo.

(a) Rhaid llenwi'r **ffurflen CLAS 1** yn llawn gan enwi holl ddarpar hyfforddwyr.
(b) Rhaid i holl hyfforddwyr fod yn achrededig gyda cherdyn aelodaeth PURE CLAS.
(c) Rhaid i holl hyfforddwyr lenwi a dychwelyd ffurflen proffil hyfforddwr, gan gynnwys gwiriad Swyddfa Cofnodion Troseddol dilys a thystiolaeth cymwysterau.
(d) Rhoi tystiolaeth o Yswiriant Atebolrwydd priodol.
(e) Rhaid i unrhyw hyfforddwyr sy'n cael unrhyw gollfarnau troseddol dilynol hysbysu CBSW ar unwaith.
(f) Rhaid i holl hyfforddwyr ddangos eu cerdyn PURE CLAS bob sesiwn i'w archwilio.
(g) Bydd eich cais yn cael ei wrthod neu ddiddymu os na fyddwch yn cwblhau'r broses hon.